

Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

Rhif y ddeiseb: P-05-1098

Teitl y ddeiseb: Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Geiriad y ddeiseb: Rhaid cynnwys sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia yn y cwricwlwm. Mae'r hanes yn cael ei gyfleu fel uniad hyfryd dwy wlad dra gwahanol ond mewn gwirionedd, mae'n anwybyddu hanes hawliau dynol. Roedd bob amser yn cael ei addysgu fel ffordd o gadw'r iaith Gymraeg yn fyw drwy ei chyflwyno i un o wledydd De America, ond mewn gwirionedd cafodd pobl Cymru eu cyflwyno i Batagonia i "wareiddio" cymunedau, sy'n deillio o ideolegau hiliol ac nid yw hynny'n cael ei addysgu mewn ysgolion.



1. Y cwricwlwm newydd

Yn amodol ar fod y Senedd yn pasio'r ddeddfwriaeth, cyflwynir y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3-16 oed ym mhob ysgol a gynhelir, a phob lleoliad meithrin a ariennir yn gyhoeddus, o fis Medi 2022 yn raddol. Cyflwynwyd [Bil Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\)](#) i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru **wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg

Caiff hanes ei addysgu ym [Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau](#). Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau hefyd yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhagnodol ac nid yw'n cynnwys rhestr o bynciau y mae'n rhaid i bob ysgol eu haddysgu.

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y Dyniaethau) a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, yn ôl y Gweinidog Addysg, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y canllawiau statudol dros dro ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain gan Lywodraeth Cymru (rhan o'r canllawiau statudol) yn cynnwys rhai canllawiau penodol i athrawon wrth gynllunio hanes yn eu cwricwlwm. Mae hyn yn nodi y dylai'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ysgolion (ymhlith pethau eraill):

- ddatblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyfiawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth y Prif Weinidog benodi Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac enwau adeiladau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a hefyd yn cyffwrdd â chyfraniadau hanesyddol pobl o dreftadaeth Ddu at fywyd Cymru. Amcan yr archwiliad oedd casglu ac adolygu'r dystiolaeth, ac ar ôl hynny roedd y Grŵp i fod i nodi materion ar gyfer ail gam posibl. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau annibynnol dan arweiniad Gaynor Legall gyda chefnogaeth swyddog prosiect a swyddogion yn Cadw.

Mae'r adroddiad, y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn nodi 209 o henebion, adeiladau neu enwau strydoedd, wedi'u lleoli ym mhob rhan o Gymru, sy'n coffáu pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chaethwasiaeth a'r fasnach mewn caethweision neu a oedd yn gwrthwynebu ei diddymu. Mae'r ddogfen yn nodi mai ei nod yw casglu gwybodaeth, nid rhoi set o atebion.

Dywedodd y Prif Weinidog, mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ynglŷn â chyhoeddi'r archwiliad:

dyma ran gyntaf gwaith llawer mwy cynhwysfawr o gydystyried sut rydym yn symud ymlaen gyda'r wybodaeth hon wrth i ni geisio anrhydeddu a dathlu ein cymunedau amrywiol. Ni fyddaf yn ceisio rhagweld unrhyw argymhellion a allai ddeillio o'r gwaith ehangach hwn, ond rhaid i'r archwiliad hwn fod yn fan cychwyn i sgwrs agored gyda'n cymunedau.

3. Patagonia

Ym 1865, hwyliodd y garfan gyntaf o ymsefydlwyr i Batagonia. Dan arweiniad y Parchedig Michael D Jones, eu nod oedd creu trefedigaeth newydd lle y gellid cadw diwylliant, iaith a chrefydd anghydfurfiol Brotestanaidd yn y Gymraeg yn rhydd o ddylanwad Lloegr. Dewisodd y Parchedig Jones, gweinidog anghydfurfiol, leoliad anghysbell oherwydd ei fod yn credu bod Cymry a oedd yn ymfudo i rannau o'r byd Saesneg eu hiaith, fel yr Unol Daleithiau, yn cael eu cymhathu yn rhy hawdd ac yn colli eu harferion, eu hiaith a'u crefydd.

Mae nifer o erthyglau diweddar wedi awgrymu, er gwaethaf y cyfeillgarwch rhwng y Cymry a ymsefydlodd a'r bobl frodorol, nad oedd effaith y Wladfa yn gwbl ddiniwed:

- [The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority \(tandfonline.com\)](#)
- [Not that kind of settlement - Institute of Welsh Affairs](#)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.